

## **Consultation Response: Objection to Brecon, Radnor, Neath and Swansea East**

I am writing in **opposition** to the proposed pairing of the UK Parliamentary constituencies Neath and Swansea East; and Brecon, Radnor and Cwm Tawe.

I am a resident of Neath, having lived here my whole life. I served as a councillor in Neath Port Talbot between 2012-2017, I currently work as support staff for a Member of the Senedd, and I stood as a candidate for the Neath and Swansea East constituency in the 2024 general election.

I am objecting to this proposal as I do not believe that this represents a cohesive constituency, and believe it fails two of the three statutory factors that the Commission may take into account; *local government boundaries* and *local ties*. I propose the alternative pairing of Neath and Swansea East, along with Aberafan Maesteg, which would represent a far more cohesive constituency

### **Local Government Boundaries**

The act states that the Commission may take into account local government boundaries that exist on the review date but, outside the reference to parts of the Neath Port Talbot LA being united, the proposed constituency of Brecon, Radnor, Neath and Swansea East does not seem to take this into consideration.

Local Government boundaries have also become an important focal point in regional planning for economic development and transport connectivity, through Corporate Joint Committees.

The alternative of Neath and Swansea East, with Aberafan Maesteg represents a far more cohesive unit that combines the majority of the Neath Port Talbot local authority. It also retains the majority of the new constituency within the Swansea Bay City Region, South Wales Police, Mid and West Wales Fire and Rescue Service, Swansea Bay University Health Board.

### **Local Ties**

The Commission stated that it considers “existing community boundaries are likely to have been created in recognition of local ties, and are therefore likely to reflect local ties” however, once again this proposal does not reflect that consideration.

The communities within Neath and Swansea East have little to no ties with many of the communities in the Brecon, Radnor and Cwm Tawe constituency, with the exception of the Cwm Tawe communities.

As mentioned above, in terms of public service delivery, many decades worth of democratic governance, socio-economic profiles, shared heritage, sporting rivalries and supporters, news media, travel to work areas and more, there is very little in common across the proposed constituency. However, Neath and Swansea East has very strong ties with Aberafan Maesteg. On a personal level, I was born in Neath but frequently went to Aberafan Beach or Margam Country Park, my mother works in Neath Port Talbot Hospital which is in the Aberafan Maesteg constituency and my wife worked in that constituency as well, I support a football team in the

Aberafan Maesteg constituency, and feel that these two represent an area with a strong sense of shared belonging, closeness, and identity.

### **Other Considerations**

In the Commission's report, it states that it views the two areas being paired in this proposal have good road links. I do not feel this to be the case, and as a public transport user I know the difficulty in getting anywhere north of Pontardawe via bus. Accessing places like Builth Wells, or Knighton would take the better part of four hours to reach by public transport (travelling through many other constituencies to do it).

Alternatively road links between Neath and Swansea East, and Aberafan Maesteg are far superior, with a wide range of regular buses and transport hubs connecting the two constituencies. In terms of bus ticketing, while there are Neath Port Talbot day tickets available from the majority of operators, there is not similar daily or weekly tickets extending into Brecon and Radnor due to the low levels of travel between these areas. Additionally the A465, M4 and the South Wales Mainline provide excellent road and rail connections across the two constituencies. Future transport planning is focused on strengthening this even further.

At the recent UK general election, Neath Port Talbot Council took on the administrative duties of overseeing the election across the Neath and Swansea East, and Aberafan Maesteg constituencies. The closeness of the two constituencies allowed the count to take place in a location that was convenient to candidates, agents and observers, and the results of both were of interest to each other due to the aforementioned strong community bonds and local ties.

The report refers to the splitting of the Cimla and Pelenna ward over different constituencies. This would of course be avoided if the alternative proposal of Neath and Swansea East, Aberafan Maesteg, were to be taken forward instead.

I would suggest that a suitable name for my proposed constituency is **Neath, Aberafan and Swansea East**, which could carry the Welsh name **Castell-nedd, Aberafan a Dwyrain Abertawe**.

## Ymateb i'r Ymgynghoriad: Gwrthwynebiad i Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe

Yr wyf yn ysgrifennu mewn **gwrthwynebiad** i'r cynnig o baru etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe; ac Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe.

Rwy'n breswlydd yng Nghastell-nedd, ac wedi byw yma gydol fy oes. Gwasanaethais fel cynghorydd yng Nghastell-nedd Port Talbot rhwng 2012-2017, ar hyn o bryd rwy'n gweithio fel staff cymorth i Aelod o'r Senedd, a sefais fel ymgeisydd ar gyfer etholaeth Castell-nedd a Dwyrain Abertawe yn etholiad cyffredinol 2024.

Rwy'n gwrthwynebu'r cynnig hwn gan nad wyf yn credu bod hyn yn cynrychioli etholaeth gydlynol, ac yn credu ei bod yn methu dau o'r tri ffactor statudol y gallai'r Comisiwn eu hystyried; ffiniau llywodraeth leol a chlymau lleol. Cynigiaf yn lle hynny baru Castell-nedd a Dwyrain Abertawe, ynghyd â Aberafan Maesteg, a fyddai'n cynrychioli etholaeth llawer mwy cydlynol.

### Ffiniau Llywodraeth Leol

Mae'r ddeddf yn nodi y gall y Comisiwn ystyried ffiniau llywodraeth leol sy'n bodoli ar ddyddiad yr adolygiad ond, y tu hwnt i'r cyfeiriad at fod rhannau o Awdurdod Lleol Castell-nedd Port Talbot wedi'u huno, ymddengys nad yw etholaeth arfaethedig Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe yn rhoi ystyriaeth i hyn.

Mae ffiniau Llywodraeth Leol hefyd wedi dod yn ganolbwynt pwysig ym maes cynllunio rhanbarthol ar gyfer datblygu economaidd a chysylltedd trafndiaeth, drwy Gyd-bwyllgorau Corfforaethol.

Mae'r dewis arall o Gastell-nedd a Dwyrain Abertawe, gydag Aberafan Maesteg, yn cynrychioli uned llawer mwy cydlynol sy'n cyfuno'r rhan fwyaf o awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot. Mae hefyd yn cadw mwyafrif yr etholaeth newydd o fewn Dinas-Ranbarth Bae Abertawe, Heddlu De Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

### Clymau Lleol

Dywedodd y Comisiwn ei fod yn ystyried bod "ffiniau cymunedol presennol yn debygol o fod wedi eu creu i gydnabod clymau lleol, ac felly yn debygol o adlewyrchu clymau lleol". Fodd bynnag, unwaith eto, nid yw'r cynnig hwn yn adlewyrchu'r ystyriaeth honno.

Nid oes gan y cymunedau o fewn Castell-nedd a Dwyrain Abertawe fawr ddim clymau â llawer o'r cymunedau yn etholaeth Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe, ac eithrio cymunedau Cwm Tawe.

Fel y soniwyd uchod, o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus, gyda gwerth degawdau lawer o lywodraethu democrataidd, proffiliau economaidd-gymdeithasol, cyd-dreftadaeth, cystadlaethau chwaraeon a chefnogwyr, cyfryngau newyddion, ardaloedd teithio i'r gwaith a mwy, ychydig iawn sydd yn gyffredin ar draws yr etholaeth arfaethedig. Fodd bynnag, mae gan

Gastell-nedd a Dwyrain Abertawe gysylltiadau cryf iawn ag Aberafan Maesteg. Ar lefel bersonol, cefais fy ngeni yng Nghastell-nedd ond byddwn yn aml yn mynd i Draeth Aberafan neu Barc Gwledig Margam, mae fy mam yn gweithio yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot sydd yn etholaeth Aberafan Maesteg ac roedd fy ngwraig yn gweithio yn yr etholaeth honno hefyd. Rwy'n cefnogi tîm pêl-droed yn etholaeth Aberafan Maesteg, ac yn teimlo bod y ddwy hyn yn cynrychioli ardal sydd ag ymdeimlad cryf o berthyn a hunaniaeth ar y cyd.

## Ystyriaethau Eraill

Yn adroddiad y Comisiwn, mae'n nodi ei fod o'r farn bod gan y ddwy ardal sy'n cael eu paru yn y cynnig hwn gysylltiadau ffyrdd da. Nid wyf yn teimlo bod hyn yn wir, ac fel defnyddiwr trafndiaeth gyhoeddus rwy'n gwybod am yr anhawster i gyrraedd unrhyw le i'r gogledd o Bontardawe ar y bws. Byddai cyrraedd llefydd fel Llanfair-ym-Muallt neu Drefyclo yn cymryd y rhan orau o bedair awr ar drafndiaeth gyhoeddus (gan deithio trwy lawer o etholaethau eraill i wneud hynny).

Fel arall, mae cysylltiadau ffyrdd rhwng Castell-nedd a Dwyrain Abertawe, ac Aberafan Maesteg, yn llawer gwell, gydag ystod eang o fysiau rheolaidd a hybiau trafndiaeth yn cysylltu'r ddwy etholaeth. O ran tocynnau bysiau, er bod tocynnau dydd Castell-nedd Port Talbot ar gael gan y rhan fwyaf o'r gweithredwyr, nid oes tocynnau dyddiol nac wythnosol tebyg yn ymestyn i Aberhonddu a Maesyfed oherwydd y lefelau isel o deithio rhwng yr ardaloedd yma. Yn ogystal, mae'r A465, yr M4 a Phrif Linell De Cymru yn darparu cysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd ardderchog ar draws y ddwy etholaeth. Mae gwaith cynllunio trafndiaeth i'r dyfodol yn canolbwyntio ar gryfhau hyn hyd yn oed ymhellach.

Yn etholiad cyffredinol diweddar y DU, ymgwymerodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot â'r dyletswyddau gweinyddol o oruchwylio'r etholiad ar draws etholaethau Castell-nedd a Dwyrain Abertawe, ac Aberafan Maesteg. Roedd agosrwydd y ddwy etholaeth yn caniatáu i'r cyfrif ddigwydd mewn lleoliad a oedd yn gyfleus i ymgeiswyr, asiantau ac arsylwyr, ac roedd canlyniadau'r ddwy o ddiddordeb i'w gilydd oherwydd y bondiau cymunedol cryf uchod a'r clymau lleol.

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at hollti ward Cimla a Phelenna dros wahanol etholaethau. Byddai hyn wrth gwrs yn cael ei osgoi pe byddai'r cynnig gwahanol o Gastell-nedd a Dwyrain Abertawe, Aberafan Maesteg, yn cael ei ddwyn ymlaen yn lle hynny.

Byddwn yn awgrymu mai enw addas i'm hetholaeth arfaethedig yw **Neath, Aberafan and Swansea East**, a allai fod â'r enw Cymraeg **Castell-nedd, Aberafan a Dwyrain Abertawe**.